# CYNGOR SIR CEREDIGION

## STRATEGAETH TOILEDAU CYHOEDDUS

Mai 2019



Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Corporate Lead Officer: Russell Hughes-Pickering
Economi ac Adfywio,
Economy and Regeneration,
Adran Glanhau
Cleaning Services
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

# CYNNWYS


**CRYNODEB GWEITHREDOL** tudalen 3

**CYFLWYNIAD** tudalen 5

**CEFNDIR A CHYD-DESTUN** tudalen 6

Trosolwg
Darparu Cyfleusterau Toiledau Cyhoeddus
Mapio a Dadansoddi Bylchau
Symud yn ein Blaen – Asesu'r Anghenion

**Y STRATEGAETH** tudalen 10

Pam mae angen strategaeth arnom i ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus?
Elfennau'r Strategaeth
Egwyddorion Cyffredinol
Yr Angen i Ddarparu Cyfleusterau
Cysoni gyda Blaenoriaethau a Gwasanaethau Eraill y Cyngor
Ystyriaethau Eraill

**YR YMGYNGHORIAD** tudalen 17

Ciplun
Canlyniadau Arolwg ar sail Holiadur
Opsiynau

**CAMAU GWEITHREDU** tudalen 32

Nodau ac Amcanion
Cynllun cyflawni 5 mlynedd

**CRYNODEB** tudalen 43

**Atodiad 1 -** Rhestr o Doiledau Cyhoeddus y Cyngor Ionawr 2019

**Atodiad 2 -** Map o'r ddarpariaeth bresennol a'r pellter rhyngddynt o fewn lleoedd allweddol yng Ngheredigion

**Atodiad 3 -** Copi o'r Holiadur ar gyfer yr Arolwg

**Atodiad 4 -** Sut i gael gafael ar y ddogfen a manylion cyswllt

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Ceredigion yn amlinellu fframwaith ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus o fewn y sir yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth yn amlinellu **cynllun gweithredu 5 mlynedd** sy'n pennu'r blaenoriaethau o ran darparu toiledau cyhoeddus ledled Ceredigion. Mae hefyd yn pennu egwyddorion arweiniol a chyfarwyddiadau allweddol sy'n blaenoriaethu a, lle bo hynny'n bosibl, yn cynnal y gwasanaethau toiledau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli.

Paratowyd y strategaeth hon mewn ymgynghoriad gydag ystod eang o randdeiliaid cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, staff glanhau, cynnal a chadw ac aelodau eraill o staff y Cyngor. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys adborth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2018 a Chwefror 2019.

Mae toiledau cyhoeddus o fudd sylweddol i'r gymuned a bydd y Cyngor yn parhau i'w darparu, eu cynnal a'u cadw, eu gweithredu a'u monitro'n ofalus, er mwyn sicrhau bod amcanion y strategaeth yn cael eu diwallu.

Y model nodweddiadol ers degawdau lawer yw darparu toiledau cyhoeddus mewn adeiladau ar wahân; serch hynny, efallai nad yw'r model hwn yn un priodol ar gyfer y dyfodol. Mae awdurdodau a ariennir yn gyhoeddus yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol a rhaid rhoi ystyriaeth ddwys i ymagwedd sy'n annog gweithio mewn partneriaeth, codi tâl yn uniongyrchol a derbyn cyllid o'r sector preifat er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i allu darparu'r cyfleusterau yma mewn dull cynaliadwy tua'r dyfodol.

Bydd mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy tuag at ddarparu cyfleusterau cyhoeddus yng Ngheredigion yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at lesiant iechyd y cyhoedd a ffyniant y gymuned. Mae'r weledigaeth yn cynnwys nifer o amcanion clir fel a ganlyn:

**Darpariaeth**
Hwyluso darparu cyfleusterau cyhoeddus yn uniongyrchol, drwy bartneriaeth a thrwy ddatganoli cyfrifoldeb i'r sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach.

**Cynaliadwyedd**
Sicrhau bod cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu darparu mewn dull cynaliadwy, gan dalu sylw dyledus i'r gost ac i'r amgylchedd.

**Yn Hygyrch i Bawb**
Bydd toiledau cyhoeddus o safon uchel ac yn hygyrch i bob defnyddiwr. Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr holl gyfleusterau a phob math o doiled yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA), lle bo hynny'n ymarferol.

**Glanweithdra**
Caiff toiledau cyhoeddus sydd ym meddiant Cyngor Sir Ceredigion eu glanhau a'u cynnal yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod isadeiledd toiledau cyhoeddus yn bodloni anghenion a disgwyliadau'r gymuned ar bob achlysur. Caiff cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio fwyaf eu glanhau a'u cynnal yn amlach na chyfleusterau eraill.

**Budd i'r Gymuned**
Sicrhau bod yr holl gyfleusterau yn cael eu cynnal i safon uchel, yn hygyrch i bawb ac wedi eu harwyddbostio a'u hyrwyddo mewn ffordd effeithiol.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu opsiynau i'w hystyried yn ystod y pum mlynedd nesaf, er mwyn darparu mwy o gyfleusterau toiled ychwanegol.

.

# CYFLWYNIAD

Mae Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Ceredigion wedi ei rhannu yn bedair rhan:

- **Cefndir a Chyd-destun –** yma sefydlir sgôp y gwaith a'r fethodoleg y tu ôl i'r Strategaeth. Mae'n cynnig adolygiad o ddogfennau cefndir perthnasol ac yn asesu sefyllfaoedd yn ymwneud â gofynion a allai godi tua'r dyfodol.

- **Y Strategaeth –** mae'n amlinellu'r casgliad o offerynnau a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch darparu toiledau.

- **Y Canlyniadau –** bydd y rhan hon yn cynnwys y canfyddiadau yn sgil y broses o asesu'r anghenion a bydd yn rhan allweddol o'r strategaeth doiledau hon**.**

- **Y Cynllun Gweithredu –** datganiad yw hwn sy'n amlinellu'r camau y mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu eu cymryd er mwyn diwallu'r angen hwn.

Ar ddiwedd y ddogfen hon, ceir crynodeb ac Atodiadau sy'n cynnwys dogfennaeth bwysig lle ceir gwybodaeth gefndirol fanylach sy'n gysylltiedig â'r strategaeth hon.

Mewn ardal o oddeutu 1,795 cilometr sgwâr, mae 74,600 o bobl yn byw yng Ngheredigion; gyda mwy na 50% yn byw mewn ardaloedd gwledig, y tu allan i'r trefi.

Ceir 60km o lwybr yr arfordir, 14 o ardaloedd cadwraeth arbennig, 100 safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig a 7 gwarchodfa natur genedlaethol yng Ngheredigion.

Serch hynny, diffinnir yr holl ardal fel ardal wledig.

Ceredigion yw un o'r siroedd mwyaf yng Nghymru. Mae cyfradd uchel o'r boblogaeth yn 65 oed a throsodd (23% ac yn cynyddu) a chyfradd uchel o bobl ifanc (17% oedran Prifysgol).
Genir tua 630 babi bob blwyddyn. Eto i gyd, mae bron i hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Mae 42% o'r gweithwyr yn cael eu cyflogi gan sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

# CEFNDIR A CHYD-DESTUN

## Trosolwg

Yn ôl Rhan 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) mae'n rhaid i awdurdod lleol lunio a chyhoeddi strategaethau toiledau lleol.  Daeth y ddeddfwriaeth hon i rym ar 31 Mai 2018. Mae yna amodau hefyd i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o'u strategaeth toiledau lleol yn dilyn pob etholiad cyffredin a gynhelir ar gyfer ei ardal o dan Adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Nid yw'r ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol.** Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu agwedd strategol sut y gellir darparu'r cyfleusterau yma a sut y gall ei boblogaeth leol gael mynediad atynt.  Yn dilyn adolygiad o'r strategaeth hon, mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion gyhoeddi datganiad cynnydd.

## Darparu Cyfleusterau Toiledau Cyhoeddus

**Beth yw eich hawliau?**

Mae Cymdeithas Doiledau Prydain wedi diffinio'r rheoliadau'n glir ac maent wedi eu crynhoi isod:-

- Nid oes gennym unrhyw **<u>hawl benodol i gael mynediad at doiled mewn man cyhoeddus</u>** ac nid yw hi bellach yn ddyletswydd ar, nac yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu Cyfleusterau Cyhoeddus.

- Nid oes dyletswydd gyfreithiol ar fusnesau, sy'n darparu toiledau ar gyfer eu cwsmeriaid, ddarparu mewn modd cyffelyb i'r sawl nad ydynt yn gwsmeriaid.

- Serch hynny, mae'n rhaid i **lefydd gwaith** ddarparu cyfleusterau addas ar gyfer eu staff.

- Mae'n rhaid i unrhyw le sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau i'r cyhoedd **wneud yn siŵr bod gan bobl anabl fynediad cyfartal** at eu cyfleusterau, gan gynnwys at doiledau.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ddarparu mynediad at y cyfleusterau yma lle bo'n rhesymol ac yn ymarferol bosibl.

Mae'r adran ddilynol yn disgrifio'r mathau gwahanol o doiledau sy'n cael eu darparu a'r opsiynau.

**Toiledau sy'n eiddo i'r Cyngor**

1) **Toiledau annibynnol – yn cael eu rheoli gan y Cyngor**

   Fel rheol, dyma'r math a ystyrir fel toiledau cyhoeddus traddodiadol. Fel arfer, maent wedi bod yn adeiladau annibynnol, wedi eu hadeiladu i bwrpas, gydag ardaloedd ar wahân i Fenywod, Dynion ac yn fwy diweddar uned hygyrch i bobl anabl a chyfleusterau newid babanod. Mae'r Cyngor wedi bod yn gyfrifol am gynnal, rheoli a glanhau'r rhain, a gwneir hynny gan staff mewnol.

2) **O fewn cyfleusterau, swyddfeydd a mannau gwyrdd y Cyngor**

   Efallai y bydd cyfleusterau toiled ar gael i'r cyhoedd lle bo'r lleoliad unigol, hygyrchedd ac amgylchiadau'n caniatáu, megis Amgueddfa Aberystwyth, Canolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid, Llyfrgelloedd Tref, Canolfannau Chwaraeon a rhai o swyddfeydd y Cyngor.

Mae yna doiledau hefyd wedi eu lleoli mewn rhai parciau a threfi arfordirol. Mae hyn yn rhan o'r angen ehangach i sicrhau bod pob un o'r gwasanaethau a gynigir yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned. Mae rhestr o safleoedd y Cyngor lle ceir toiledau at ddefnydd y cyhoedd yn Atodiad 1.

3) **Cynlluniau Partneriaeth/Cymunedol**
   Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn gynllun sy'n dyfarnu grant bach o hyd at £500 y flwyddyn i fusnesau lleol, yn gyfnewid am ganiatáu i gwsmeriaid, nad ydynt yn talu, ddefnyddio eu toiledau. Serch hynny, nid oes unrhyw safon gydnabyddedig i'r ddarpariaeth.

4) **Y Sector Masnachol/Manwerthu**
   Mae llawer o gyfleusterau toiled a ddarperir gan fusnesau masnachol neu fanwerthu wedi eu neilltuo yn unig, neu yn bennaf, at ddefnydd cwsmeriaid. Mae'r rhan fwyaf o atyniadau i ymwelwyr neu dwristiaid a lleoliadau adloniant, megis sinemâu, yn darparu cyfleusterau toiled. Derbynnir bod y cyhoedd yn dibynnu ar gyfleusterau o'r fath.

Bydd cyfuniad o'r mathau o gyfleusterau toiled a nodir uchod, yn cefnogi ac yn ffurfio rhan o nod ac amcanion y strategaeth ddarparu hon ar gyfer Ceredigion fel sir.

# Mapio a Dadansoddi Bylchau

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gyfrifol am 38 toiled cyhoeddus traddodiadol, ac fe'u cynhelir gan un aelod staff llawn amser ac wyth aelod staff rhan amser.

Rhestrir y cyfleusterau cyhoeddus presennol sy'n eiddo i'r Cyngor yn Atodiad 1. Mae'r rhestr gynhwysfawr yn cadarnhau'r holl fanylion gan gynnwys cydymffurfiaeth gyda Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd/cyfleusterau newid ar wahân/amserau agor a'r lleoliadau yn y sir.

Ceir dau le parhaol lle ceir cyfleusterau lleoedd newid yn Aberystwyth.

Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>
Rhodfa Padarn<br>
Aberystwyth<br>
Ceredigion<br>
SY23 3UR

Cyngor Sir Ceredigion<br>
Canolfan Rheidol<br>
Rhodfa Padarn<br>
Aberystwyth<br>
SY23 3UE

Gellir dod o hyd i fanylion pellach ynglŷn â'r rhain ac yn genedlaethol ar wefan sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleusterau lleoedd newid mewn toiledau yn y DU : http://changingplaces.uktoiletmap.org/find?toiletLocation=Ceredigion .

# Mapio lleoliadau

Mae hon yn rhan bwysig o'n strategaeth er mwyn i'r unigolion hynny sydd eisiau mynd i doiled ddod o hyd i wybodaeth yn hawdd am leoliad, amserau agor, hygyrchedd a'r math o gyfleusterau sydd ar gael. Cyfeiriwch at Atodiadau 1 a 2 am wybodaeth fanylach ychwanegol.

Caiff lleoliadau toiledau eu hysbysebu drwy gyfrwng ap mapio a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer technoleg symudol a ffonau clyfar. Mae busnesau sydd yn cymryd rhan yn y cynllun ar hyn o bryd (rhan o'r cynlluniau partneriaethau/cymunedau) yn arddangos sticer mewn lle amlwg, sy'n dangos bod toiledau ar gael i'r cyhoedd. Y sticer a welwch yma yw'r logo a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

O dro i dro bydd y Cyngor yn adolygu ac yn diweddaru cronfa ddata Llywodraeth Cymru 'Lle', er mwyn sicrhau bod cyhoeddwyr tywyslyfrau a mapiau, preswylwyr ac ymwelwyr yn cael gwybodaeth fanwl gywir.

Unwaith y bydd Cyngor Sir Ceredigion wedi clustnodi'r toiledau a fydd yn cael eu hyrwyddo fel toiledau sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd, bydd y Cyngor yn darparu'r set data hwn ac yn ei gyhoeddi fel data agored ar wefan y Cyngor. Bydd y set data hwn yn cynnwys lleoliad a nodweddion penodol y toiledau a glustnodwyd ac yn cael eu cyfuno â setiau data Awdurdodau Lleol eraill er mwyn cynhyrchu'r set data cenedlaethol ar gyfer map Lle. Gofynnir am y data Mapio hwn oddi wrth bob Awdurdod Lleol yng Nghymru er mwyn ei anfon at Lywodraeth Cymru, fel y gellir cynhyrchu map toiledau cenedlaethol. Bydd y map yma i'w weld drwy gyfrwng gwefan LLE.
Bydd map 'Lle' yn wasanaeth data agored, ar gael i bawb.
Y ddolen ar gyfer porth 'Lle' yw http://lle.gov.wales/home?lang=cy

# Symud yn ein Blaen/Asesu’r Anghenion

Mae yna ystod o ganllawiau polisi o ran darparu toiledau cyhoeddus a hybu iechyd, llesiant a diogelwch yng Ngheredigion.  Mae’r tudalennau canlynol yn crynhoi’r dogfennau polisi strategol allweddol ac yn trafod eu goblygiadau i’r Strategaeth.

Mae toiledau sydd yn agored i’r cyhoedd yn HANFODOL ar gyfer ein gweithgareddau pob dydd ac yn ogystal â bod yn gwbl angenrheidiol i lawer o grwpiau defnyddwyr ac unigolion gydag anghenion hygyrchedd – rhieni gyda phlant ifanc ac er mwyn cefnogi urddas a llesiant pobl hŷn - maent yn cynnig cysur ychwanegol i’r diwydiant twristaidd, ein teithwyr dydd a’r nifer cynyddol o weithwyr symudol sy’n teithio ledled y DU.

Y model ers blynyddoedd lawer yw darparu toiledau cyhoeddus mewn adeiladau unigol. Efallai nad yw llawer o bobl yn sylweddoli bod toiledau cyhoeddus wedi bod yn agored, yn draddodiadol, i drethi busnes yn yr un modd â safleoedd annomestig eraill megis siopau a swyddfeydd.  Cyhoeddodd y Canghellor ar 28 Hydref 2018 na fydd Deiliaid Cyllideb, o hyn allan, yn gorfod talu trethi cyfradd busnes ar doiledau; serch hynny nid yw hyn yn gymwys ar hyn o bryd yng Nghymru.

Mae Cymdeithas Doiledau Prydain wedi amcangyfrif bod 40% o doiledau cyhoeddus wedi diflannu yn ystod y degawd diwethaf.  Fel rhan o’r strategaeth, mae’r Cyngor yn ystyried ailgyflwyno’r Cynllun Toiledau Cymunedol.  Mae’r Cynllun yn dyfarnu grant bach o hyd at £500 y flwyddyn i fusnesau lleol, yn gyfnewid am ganiatáu i gwsmeriaid, nad sy’n talu, ddefnyddio eu toiledau.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Geredigion ddigon o Gyfleusterau Lleoedd Newid, gyda dim ond dau Le Newid o’r fath wedi eu clustnodi. Anelir at gau’r bwlch hwn yn y ddarpariaeth, drwy gynyddu’r ddarpariaeth i bobl ag anableddau unigol a/neu luosog ac sy’n ddibynnol ar gyfarpar arbennig a chefnogaeth gan ofalwyr.  Byddwn yn tynnu sylw at yr angen dirfawr i ddarparu cyfleusterau o’r fath tua’r dyfodol, gan nodi’r gwahaniaeth enfawr y byddai’n ei wneud i fywydau llawer y mae angen dybryd am ddarpariaeth o’r fath arnynt ac anogir pob datblygiad tua’r dyfodol i gynnwys y cyfleuster hwn o fewn ei gynlluniau.     Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd posibl i gynnwys y ddarpariaeth hon o fewn cynlluniau ailddatblygu Neuadd y Farchnad yn Aberteifi, yn ogystal â’r cynlluniau i ymestyn ac ailddatblygu yr Hen Goleg yn Aberystwyth.

# Y STRATEGAETH


## Pam mae angen strategaeth arnom i ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi **saith** nod llesiant cenedlaethol ac mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion wneud ei orau i gyfrannu at eu cyflawni, gan weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill o fewn y sir.

**Nodau Llesiant**





Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau yn awr a thua'r dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghyfartaledd o ran iechyd a swyddi a thwf. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd. Er mwyn rhoi ansawdd bywyd da i'r

genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ni feddwl am effaith hirdymor y penderfyniadau a wnawn.  Mae'n cwmpasu llawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru,Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

**Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy**

Mae'r egwyddor wedi ei seilio ar bum ffordd allweddol o weithio y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried, sef:




Darparu toiledau cyhoeddus mewn adeiladau ar wahân fu'r model nodweddiadol ers degawdau lawer; serch hynny, efallai nad yw hwn yn fodel addas ar gyfer y dyfodol. Mae awdurdodau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yn wynebu pwysau cyllidebol arwyddocaol ac erbyn hyn mae'n rhaid mabwysiadu ymagwedd sy'n hybu gweithio mewn partneriaeth, codi tâl uniongyrchol a defnyddio cyllid y sector preifat, er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i ddarparu toiledau sydd yn agored i'r cyhoedd.

Bydd y Strategaeth Doiledau yn ymgorffori'r pum dull o weithio y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn eu dilyn er mwyn sicrhau bod strategaeth gynaliadwy yn cael ei datblygu:-

- Ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i ddiwallu anghenion hirdymor;
- Mabwysiadu ymagwedd integredig;
- Gweithio gydag eraill i ddod o hyd i ddulliau cynaliadwy i ddatrys y broblem;
- Cynnwys pobl mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt;
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer toiledau cyhoeddus yng Ngheredigion:

*“Mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy at ddarparu cyfleusterau cyhoeddus yng Ngheredigion sydd yn cyfrannu’n gadarnhaol at iechyd y cyhoedd, llesiant a ffyniant y gymuned.”*

# Elfennau'r Strategaeth

### Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Egwyddorion Cyffredinol yn amlinellu'r gwerthoedd allweddol sy'n sail i ddarparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus yng Ngheredigion, sy'n cynnwys:

- Darpariaeth;
- Cynaliadwyedd;
- Yn hygyrch i bawb;
- Glanweithdra;
- Budd cymunedol.

### Cynllun Gweithredu

Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r cynllun pum mlynedd sy'n llywio'r broses o gyflwyno cyfleusterau cyhoeddus yng Ngheredigion. Gellir darllen hwn mewn mwy o fanylder yn Adran – Y CYNLLUN GWEITHREDU (Tudalen 35).

### Cyfarwyddiadau Allweddol

Mae'r Cyfarwyddiadau Allweddol yn amlinellu nifer o gyfarwyddiadau strategol allweddol sy'n cynnwys **Busnes fel Arfer/ Codi Tâl/Trosglwyddo/Cyfle Busnes/Cau**. Asesir yr ystyriaeth hon yn erbyn y ddarpariaeth bresennol o fewn adeiladau cyhoeddus.

# Egwyddorion Cyffredinol

| | |
|---|---|
| **DARPARU** | Hwyluso darparu cyfleusterau cyhoeddus yn uniongyrchol, mewn partneriaeth a thrwy ddatganoli cyfrifoldeb i'r sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach. |
| **CYNALIADWYEDD** | Sicrhau bod cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno mewn dull cynaliadwy, gan roi sylw dyledus i'r gost a'r amgylchedd. |
| **YN HYGYRCH I BAWB** | Bydd toiledau cyhoeddus o ansawdd uchel ac ar gael i bob defnyddiwr. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ymdrechu i gydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ym mhob un o'r cyfleusterau, lle bo hynny'n ymarferol bosibl. |
| **GLANWEITHDRA** | Caiff toiledau cyhoeddus eu glanhau a'u cynnal yn rheolaidd a hynny i safon uchel, er mwyn gwneud yn siŵr bod isadeiledd toiledau cyhoeddus y Cyngor yn bodloni anghenion a disgwyliadau'r gymuned bob amser. Caiff cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio fwyaf eu glanhau a'u cynnal yn amlach nag eraill. |
| **BUDD I'R GYMUNED** | Sicrhau bod yr holl gyfleusterau'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel, eu bod yn hygyrch i bawb ac wedi eu harwyddbostio a'u hyrwyddo'n effeithiol. Bydd hyn hefyd yn golygu cynnwys cymunedau lleol yn y gwaith o gynnal a chadw a darparu toiledau cyhoeddus traddodiadol, gan gynnwys trosglwyddo asedau cymunedol. |

# Yr angen i ddarparu Cyfleusterau

Mae yna nifer cynyddol o grwpiau defnyddwyr arbenigol, yr effeithir ar eu bywydau gan gyflwr toiledau cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Mae'r rhain yn cynnwys pobl gydag anableddau meddyliol neu gorfforol a'u gofalwyr, pobl fregus neu'r henoed, pobl â babanod neu blant ifanc a phobl o bob oedran sy'n ymdopi ag ystod o gyflyrau meddygol.

- Mae proffil poblogaeth Cymru yn cynnwys nifer arwyddocaol, cynyddol o bobl hŷn;
- Mae preswylwyr yn teithio mwy o fewn y wlad, ac mae nifer yr ymwelwyr â'r Deyrnas Unedig yn cynyddu'n flynyddol, gan roi pwysau ychwanegol ar y toiledau sy'n bodoli eisoes;
- Mae materion iechyd y cyhoedd a hylendid, yn ogystal â materion amgylcheddol yn y newyddion yn gyson, gyda'r cyfryngau'n dangos diddordeb cynyddol mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â thoiledau cyhoeddus;
- Toiledau cyhoeddus yw'r 'ffenestr siop' ar gyfer unrhyw ardal neu sefydliad – lle llunnir argraffiadau cyntaf a pharhaol i ba raddau y gofelir am gwsmeriaid.

Mae pob un ohonom yn gorfod defnyddio'r toiled sawl gwaith y dydd pan ydym oddi cartref, yn y gwaith, ar wyliau neu wrth deithio o le i le. Mae'r angen yma hyd yn oed yn

fwy o fater brys os ydych yn perthyn i un o'r nifer o grwpiau defnyddwyr arbennig sy'n dioddef o gyflyrau meddygol sy'n golygu bod angen i chi fynd i'r toiled yn syth.

Mae gallu mynd i doiledau glân, glanwaith pan fo angen yn rhan o'n hawliau sylfaenol fel pobl ac mae'n diwallu angen arwyddocaol o safbwynt:-

- Iechyd a Llesiant
- Cydraddoldeb
- Cynhwysiant Cymdeithasol
- Preifatrwydd a Pharch Cyhoeddus

## Cysoni gyda blaenoriaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor

- Srategaeth Gorfforaethol 2017 – 2022

Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel, effeithiol ac effeithlon i breswylwyr Ceredigion. Mae'n sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ystyried ei bod yn hanfodol cyflwyno gwasanaethau rhagorol ar gyfer y cyfnod gweinyddol nesaf rhwng 2017 a 2022.

Mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol beth yw'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwelliant drwy brosesau hunan arfarnu parhaus, ymrwymiad rhanddeiliaid ac ystod amrywiol o ddigwyddiadau ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol. Mae polisïau a blaenoriaethau cenedlaethol hefyd yn ffynhonnell eu dealltwriaeth. Mae Asesiad Llesiant Lleol hefyd wedi dylanwadu ar y Strategaeth Gorfforaethol hon ac at ddatblygu'r pedair blaenoriaeth y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd y Blaenoriaethau canlynol yn galluogi cyflwyno gwasanaethau a fydd yn cyfoethogi llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Ceredigion.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol 1 - Hybu'r Economi**

**Blaenoriaeth Gorfforaethol 2 – Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl**

**Blaenoriaeth Gorfforaethol 3 – Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd**

**Blaenoriaeth Gorfforaethol 4 – Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol**

Diwellir y Blaenoriaethau Corfforaethol a nodwyd uchod fel a ganlyn:-

**Hybu'r Economi –**Dod yn rhan o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru drwy fuddsoddi yn y meysydd twf a nodwyd, datblygu a gwella'r isadeiledd, tyfu'r economi a datblygu'r cyswllt rhwng y sector cyhoeddus a phreifat.

**Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl** – Cyfleoedd i'r boblogaeth ddatblygu eu sgiliau corfforol, deallusol a chymdeithasol er mwyn arwain bywydau gweithgar ac iach, cael mynediad at fentrau a darpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a chynorthwyo poblogaeth a chanddi broffil oedran cynaliadwy.

**Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd** – Bydd darparu gwell toiledau yn galluogi dinasyddion o bob oedran i gael gwell ansawdd bywyd, gwell llesiant ac iechyd drwy fabwysiadau ymyraethau effeithiol ac annog cydnerthedd cymunedol, unigol a theuluol o fewn Ceredigion.

**Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol**-Lleihau allyriadau carbon wrth ddefnyddio technoleg amgen er mwyn darparu trydan a lleihau'r defnydd o ddŵr, datblygu Ap i roi gwybod i ddinasyddion lle mae toiledau, er mwyn lleihau'r angen i deithio'n ormodol ac annog cymunedau i wella cydnerthedd yn wyneb newidiadau o ran materion amgylcheddol a chymdeithasol.

- ## Ceredigion I Bawb – Cynllun Integredig Sengl Bwrdd Gwasanaeth Lleol Ceredigion Ceredigion

Ceredigion I Bawb yw'r Cynllun Integredig Sengl i Geredigion, sef dogfen sy'n amlinellu'r prif faterion a'r camau gweithredu y mae angen i Fwrdd Gwasanaeth Lleol Ceredigion fynd i'r afael â nhw dros y pedair blynedd nesaf, gyda'r nod o wella bywydau dinasyddion Ceredigion.

Mae'r Cynllun yn ymagwedd newydd sy'n cynnwys Bwrdd Gwasanaeth Lleol Ceredigion ac yn cynrychioli sefydliadau partner yr ardal. Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol craidd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru.

Bydd y Strategaeth Doiledau yn elwa o gyfleoedd y gall y Bwrdd Gwasanaeth Lleol eu darparu, gyda sefydliadau partner yn gallu cynnig darpariaeth doiledau amgen a newid y ffordd y gellir cyflwyno a chynnal a chadw'r gwasanaeth hwn.

- ## Cynllun Strategol Cydraddoldeb Ceredigion 2016-20

Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys ymrwymiad eang i ddiwallu Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y Dyletswyddau Penodol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011. Yn ogystal, mae'r ddogfen hon yn esbonio i aelodau'r cyhoedd, aelodau etholedig, staff a sefydliadau partner, sut mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu cyflwyno ei ymrwymiadau Cydraddoldeb, gan barhau i fod yn sefydliad cynhwysol nad yw'n goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.

- ## Amcanion Llesiant a Gwella 2017-2018

Mae Adroddiad Blynyddol yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaethpwyd gan y Cyngor o safbwynt nodau Llesiant a Gwella 2017-18. Mae'n rhoi arfarniad cyffredinol o gyflawniad y Cyngor a'i gynnydd tuag at ddiwallu Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.

- ## Y Cynllun Rheoli Carbon 2012/13-2016/17

Gweithiodd Cyngor Sir Ceredigion gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon yn 2018 i ddatblygu ei Gynllun Rheoli Carbon (2018-2023). Mae'r Cynllun Rheoli Carbon yn ymrwymo Cyngor Sir Ceredigion i anelu at ostyngiad o 15% mewn $CO_2$e rhwng 2018 a 2023, ac mae'n sail i arbedion cyllidol gros posibl o £500k y flwyddyn i'r sefydliad yn ystod y cyfnod hwn.

- **Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned**

  Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ymgysylltu gyda'i breswylwyr, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Cynllun Gweithredu yn rhoi cyfeiriad corfforaethol a chanllaw i aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor fel bod ymgysylltu wrth galon gwaith y Cyngor ac er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu o safon gyson uchel.

- **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015-2020**

  Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi ei baratoi ar y cyd gan Awdurdodau Canolbarth Cymru sef Powys, Ceredigion a Gwynedd.

# Ystyriaethau Eraill

Mae'r themâu canlynol yn amlygu materion ychwanegol a allai ddylanwadu ar y broses o benderfynu ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus.

Byddai angen ymchwil bellach ac ymgynghoriad ar y themâu yma ac nid ydynt mewn unrhyw ffordd yn ffurfio argymhelliad/argymhellion.

Mae'r ystyriaethau yma'n cynnwys:

- Adolygu darpariaethau cynllunio a chytundebau ar gyfer toiledau mewn adeiladau preifat, er mwyn sicrhau mathau priodol o ddarpariaethau toiled a digon ohonynt er lles y cyhoedd;

- Archwilio cyfleoedd i wella eglurder a hybu toiledau cyhoeddus drwy fapio ar-lein, arwyddion rhyngweithiol digidol a chyfryngol mewn lleoliadau allweddol, fel sy'n digwydd yn nhref Aberystwyth ar hyn o bryd;

- Digwyddiadau Dros Dro – Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal digwyddiadau arbennig a gwyliau yn rheolaidd ar hyd yr arfordir ac mewn lleoedd agored. Mae'r digwyddiadau cymunedol hyn yn aml yn denu torfeydd mawr o ymwelwyr o blith preswylwyr Ceredigion a siroedd cyfagos. Ar gyfnodau brig, yn aml yn ystod yr haf, mae'r galw am doiledau cyhoeddus yn cynyddu ac nid yw cyfleusterau sy'n bodoli yn gallu ymdopi gyda'r defnydd ychwanegol;

- Patrymau Ariannu –Gallai gatiau talu/cyfleoedd i hysbysebu/cyflwyno trwyddedau gynyddu incwm a lwfansau cyllideb ar gyfer toiledau, a fyddai'n caniatáu gwelliannau o ran y gwasanaeth ac o ran cynnal a chadw;

- Mynediad I Bawb - Bydd sicrhau bod toiledau cyhoeddus yn hygyrch ac yn bodloni gofynion holl drigolion Ceredigion yn bwysig er mwyn sicrhau dyfodol teg;

- Nawdd – Archwilio posibiliadau a gwerth posibl yr opsiwn hwn.

# YMGYNGHORI

## Ciplun

## Arolwg Ar-lein

Cyhoeddwyd arolwg ar-lein am gyfnod o 12 wythnos rhwng 3 Rhagfyr 2019 a 25 Chwefror 2019. Yn yr arolwg, holwyd nifer o gwestiynau i drigolion a defnyddwyr eraill toiledau cyhoeddus Ceredigion, cwestiynau ynghylch lleoliad toiledau, argaeledd, defnydd a darpariaeth gynaliadwy.

Cymerodd dros 634 ymatebwr ran yn yr arolwg ar-lein a oedd ar gael drwy wefan Cyngor Sir Ceredigion (www.ceredigion.gov.uk) neu fel y'i gwelir yn Atodiad 3. Roedd saith ar hugain o'r ymatebion yma yn y Gymraeg.

Roedd yr holiadur yn agored i holl drigolion presennol a chyn-drigolion y sir yn ogystal ag ymwelwyr â Cheredigion, gyda'r nod o gasglu adborth oddi wrth drawstoriad o drigolion a defnyddwyr, er mwyn canfod gwybodaeth a fyddai'n cyfrannu at benderfynu anghenion cyffredinol a chynorthwyo yn y broses o baratoi'r Strategaeth Toiledau Lleol.

## Canlyniadau Holiadur yr Arolwg

Isod ceir dadansoddiad o'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â ***Strategaeth Toiledau Lleol Cyngor Sir Ceredigion***.

Dyma grynodeb o'r canfyddiadau:-


**2. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw doiledau cyhoeddus yng Ngheredigion yn ystod y 12 mis diwethaf?**

| | |
|---|---|
| Do | 626 |
| Naddo | 26 |
| Dim ymateb | 56 |




**3. Ydych chi’n ystyried hygyrchedd ac argaeledd toiledau cyhoeddus wrth ymweld â threfi a phentrefi Ceredigion?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 550 |
| Nac ydw | 100 |
| Dim ymateb | 6 |



**4. O fewn canol ein trefi, faint fyddech chi'n ei ystyried yn dderbyniol i gerdded i doiled cyhoeddus?**

| | |
|---|---|
| Llai na 5 munud | 510 |
| Mwy na 5 munud | 139 |
| Dim ymateb | 7 |





**5. Faint o amser fyddech chi'n ei ystyried yn dderbyniol i yrru i doiled cyhoeddus?**

| | |
|---|---|
| Llai na 15 munud | 533 |
| Llai na 30 munud | 109 |
| Dim ymateb | 14 |




**6. Yn eich barn chi, ble ydych chi'n meddwl y mae angen toiledau cyhoeddus fwyaf? Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

| | Cytuno | Anghytuno | Dim ymateb |
|---|---|---|---|
| Yn agos at ardaloedd siopa mawr | 600 | 42 | 14 |
| Ger atyniadau twristiaid | 613 | 21 | 22 |
| Nesaf i feysydd chwarae plant | 572 | 43 | 41 |
| Ar draethau poblogaidd | 634 | 7 | 15 |
| Mewn gorsafoedd trenau a bysiau | 609 | 28 | 19 |
| Ar hyd llwybr yr arfordir | 377 | 192 | 87 |
| Llwybrau teithio strategol er enghraifft A44/A487 | 525 | 82 | 49 |




**7. Ydych chi’n cefnogi darparu toiledau cyhoeddus yn barhaus o fewn eich tref/pentref?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 608 |
| Nac ydw | 9 |
| Ddim yn gwybod | 32 |
| Dim ymateb | 7 |





**8. A fyddech chi’n talu i ddefnyddio toiledau cyhoeddus?**

| | |
|---|---|
| Byddwn | 433 |
| Na Fyddwn | 213 |
| Dim Ymateb | 10 |



**9. Os mai 'byddwn' yw'ch ateb, faint fyddech chi'n barod i dalu?**

| | |
|---|---|
| 20c | 321 |
| 50c | 57 |
| £1 | 12 |
| Arall | 111 |





| | Byddwn | Na Fyddwn |
|---|---|---|
| Arall | 111 | 390 |
| £1 | 12 | 489 |
| 50c | 57 | 444 |
| 20c | 321 | 180 |
| Fyddech chi'n talu? | 433 | 213 |


**10. Mae Ceredigion yn cynnal partneriaeth â darparwyr gwasanaethau lleol i gynnig eu cyfleusterau toiledau am ddim i'r cyhoedd, p'un a ydynt yn gwsmer ai peidio? Ydych chi'n ymwybodol o Gynllun Toiledau Cymuedol Cyngor Ceredigion?**

| | Ydw | Nac Ydw | Ddim yn Gwybod | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| Ydych chi'n ymwybodol o Gynllun Toiledau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion? | 172 | 477 | - | 7 |
| Ydych chi'n credu y dylem fod yn ymestyn y Cynllun Toiledau Cymunedol yn ehangach i fusnesau? | 410 | 98 | 136 | 12 |
| Fyddech chi'n cefnogi cau toiledau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor er mwyn cael darpariaeth amgen, megis Cynllun Toiledau Cymunedol? | 69 | 465 | 114 | 8 |


**Cynllun Toiledau Cymunedol Ceredigion**




**11. Ydych chi'n meddwl y dylem fod yn ymestyn y Cynllun Toiledau Cymunedol yn ehangach i fusnesau?**




**12. Pe bai'r Cynllun yn cael ei ehangu i gynnwys mwy o fusnesau yn yr ardal, fel toiledau cyhoeddus eraill/ychwanegol, a fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn eu defnyddio?**




**13. A fyddech chi’n cefnogi cau toiledau cyhoeddus sy’n cael eu rhedeg gan y Cyngor gan fod y cyngor o blaid darpariaeth wahanol, fel y Cynllun Toiledau Cymunedol?**




**14. Sut ddylai'r Cyngor sicrhau bod y ddarpariaeth o ran toiledau cyhoeddus yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol?**

| | Cytuno | Anghytuno | Dim Ymateb | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am doiledau i'r Cynghorau Cymuned | 202 | 327 | 127 | |
| Codi ffi am ddefnyddio toiledau | 336 | 251 | 69 | |
| Eu rheoli mewn partneriaeth gyda Chynghorau Cymuned | 502 | 89 | 65 | |
| Eu rheoli mewn partneriaeth gyda chyrff sector cyhoeddus eraill | 409 | 133 | 114 | |
| Cau toiledau yn ystod y gaeaf | 34 | 541 | 81 | |
| Cau toiledau sy'n cael eu defnyddio leiaf | 122 | 442 | 92 | |
| Darparu toiledau niwtral o ran rhywedd yn unig | 185 | 372 | 99 | |
| Mwy o ddefnydd o'r Cynllun Toiledau Cymunedol | 365 | 171 | 120 | |
| i) Arall | - | - | 531 | 125 |




**15. Sut allwn ni helpu pobl i ddod o hyd i doiledau cyhoeddus?**

| | Ie | Na |
|---|---|---|
| Darparu mapiau | 255 | 401 |
| Gwell arwyddion ar y stryd | 614 | 42 |
| Gwefan Cyngor Sir Ceredigion | 330 | 326 |
| Gwefannau eraill, fel Dewis | 124 | 532 |
| Llyfrynnau gwybodaeth i dwristiaid | 384 | 272 |
| Dyfeisiau llywio, fel Satnav | 339 | 317 |



**16. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o doiled:**

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| Hygyrch | 366 | 290 |
| Newid baban | 221 | 435 |
| Lleoedd newid | 71 | 585 |
| Niwtral o ran rhywedd | 198 | 458 |




**17. Sylwadau**

*“Yn gyffredinol rwy’n credu bod y toiledau cyhoeddus sy’n cael eu darparu yng Ngheredigion yn rhagorol yng Ngheredigion, mae faint ohonynt sydd ar gael, eu glanweithdra a chyflwr toiledau Ceredigion yn well na’r rhai y mae Awdurdodau Lleol eraill yn eu darparu.l”*

*“Diolch am wneud gwelliant sylweddol i safon toiledau cyhoeddus yn y sir, ond peidiwch â chynyddu’r cyfleusterau lle’r ydych chi’n codi tâl.  Mae’n hawdd gweld sut fyddech chi’n ildio i’r demtasiwn.”*

*“Maen nhw’n rhagorol ac mae’n rhywbeth cadarnhaol o safbwynt yr ardal.  Mae’n wahanol iawn i’r ardal lle’r wyf yn byw ac mae toiledau Ceredigion yn cymharu’n ffafriol gyda siroedd eraill.  Mewn rhai trefi, mae’n rhaid cerdded tipyn o siopau’r dref i’r toiledau cyhoeddus, mae’n anodd i’r henoed ac i’r ifanc”*

*“Does dim ots gen i dalu am ddefnyddio’r toiledau os yw’n help i’w cadw’n lân ac yn ddymunol.”*

*“Ar y cyfan, rwy’n hapus iawn gyda thoiledau cyhoeddus Ceredigion.  Maent ymhlith y glanaf rwyf wedi eu defnyddio yn y D.U.”*

*“Rhowch y gorau i godi tâl am ddefnyddio toiledau, os gwelwch yn dda.  Mae’n warthus codi tâl am angen brys, hanfodol.  Meddyliwch am deuluoedd â phlant ifanc a’r henoed a’r rhai hynny sy’n dueddol o orfod mynd i’r tŷ bach ar frys.  Mae hyn yn arbennig o wir pan fo angen talu gyda darnau arian, erbyn hyn mae pobl yn cario llawer llai o newid mân.”*

*“Fel un sy’n cael ei gyflogi gan y Cyngor ac yn gweithio allan yn y gymuned, mae hi’n bwysig gwybod lle mae toiledau cyhoeddus, ond YR HYN sy’n fy ngwneud yn fwyaf crac yw’r ffaith bod toiledau’n cael eu cau ar rai adegau o’r flwyddyn.”*

*“Rwy’n teimlo y dylai fod mwy o doiledau cyhoeddus, gan fod y pellter rhyngddynt yn ormod. Mae gan rai pobl broblemau iechyd sy’n golygu bod yn rhaid iddynt ddefnyddio toiledau’n aml.”*


*“Ddylai pobl ddim gorfod talu i fynd i’r toiled.”*

*“Pam mae toiledau cyhoeddus yn cau dros fisoedd y gaeaf? Trethdalwyr y cyngor sy’n talu amdanynt, nid twristiaid!”*


*“Nid wyf yn hapus am godi tâl i ddefnyddio toiledau cyhoeddus oherwydd dylid cynnwys costau cynnal a chadw o fewn y Dreth Gyngor uchel iawn rydym yn ei thalu’n flynyddol.  Mae mynd i doiled cyhoeddus yn hawl sylfaenol a dylid gorfodi’r cyngor i dalu am ddarparu’r gwasanaeth.”*

**18. Beth yw eich grŵp oedran?**

| | |
|---|---|
| 15-24 oed | 12 |
| 25-44 oed | 155 |
| 45-64 oed | 337 |
| 65+ oed | 145 |
| Dim ymateb | 7 |




## 19. …..a'ch rhyw?




**Dadansoddiad oedran a rhyw**

| | 15-24 oed | 25-44 oed | 45-64 oed | 65+ oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Benyw | 7 | 117 | 245 | 88 | 457 |
| Gwryw | 5 | 33 | 82 | 48 | 168 |
| Cyfanswm | 12 | 155 | 337 | 145 | 17 |



# Crynodeb o Ganlyniadau'r Arolwg

- **Argaeledd a Hygyrchedd Cyfleusterau Cyhoeddus**

Roedd nifer yr ymatebion i'r Arolwg Ymgynghori ynghylch defnyddio Cyfleusterau Cyhoeddus yn eithriadol o uchel, sy'n galonogol o safbwynt datblygu a gweithredu'r Strategaeth Doiledau yn y dyfodol.

Mae hi'n amlwg o'r holiadur bod y cyhoedd yn cydnabod pa mor bwysig yw hi bod cyfleusterau cyhoeddus ar gael a'u bod yn hygyrch i drigolion lleol ac ymwelwyr â Cheredigion Mae cael cyfleusterau cyhoeddus glân, diogel a hygyrch yn effeithio ystod eang o bobl ac mae'n hanfodol bod y cyfleusterau hyn o fewn cyrraedd wrth gerdded a gyrru yn y car, gan fod y ddarpariaeth hon yn hybu twf economaidd Ceredigion yn ogystal â diwallu anghenion y genhedlaeth hŷn, ymwelwyr tramor, preswylwyr lleol, teuluoedd ifanc a dinasyddion sydd ag anabledd neu gyflwr meddygol.

Mae cael cyfleusterau cyhoeddus wrth law ac yn agos at atyniadau twristaidd, traethau a siopau o fudd mawr i'r ardal wrth hybu economi Ceredigion ac adlewyrchir hyn gan ganlyniadau'r arolwg.  Mae'r arolwg hefyd yn dangos yr angen i gael cyfleusterau toiled ar hyd y prif lwybrau teithio strategol ar draws Ceredigion.

Diwellir anghenion a bodlonir gofynion y sawl sy'n elwa o'r fath ddarpariaeth, sef darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus, gyrrwyr dosbarthu, y gwasanaethau brys a defnyddwyr gwasanaethau preifat a chyhoeddus eraill gyda'r cyfleusterau toiled angenrheidiol ar hyd y prif lwybrau teithio.

- **Tâl Mynediad**

Mae'r siartiau'n dangos y byddai 66% o'r ymatebwyr yn barod i dalu am ddefnyddio'r Cyfleusterau Cyhoeddus, gyda 64% yn barod i dalu'r gost bresennol o 20c.  Mae hyn yn cadarnhau'r cysyniad bod y cyhoedd yn fodlon ar y trefniant hwn, er mwyn gallu darparu toiledau glân, wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn hygyrch.

Gyda mwy o doriadau cyllidebol ar y gorwel, mae'n bwysig codi arian drwy'r cyfle posibl hwn i gynhyrchu incwm, er mwyn cynnal a chadw'r cyfleusterau yma.

- **Cynllun Toiledau Cymunedol**

O edrych ar y data, mae hi'n amlwg nad yw'r Cynllun Toiledau Cymunedol wedi ei gydnabod i'r un graddau ag y rhagwelwyd.  Nid yw nifer fawr o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r cynllun ac mae cyfle i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am y cynllun hwn, er mwyn hybu'r dewis hwn yn y dyfodol.

Roedd yr ymatebwyr yn hapus i annog hyrwyddo'r cynllun i fusnesau lleol, fel na fyddai toiledau oedd yn cael eu rhedeg gan y Cyngor yn cael eu cau.

Cytunai'r mwyafrif dros ledu'r Cynllun Toiled Cymunedol i fusnesau lleol a'u hybu i gymryd rhan, er mwyn atal cau toiledau cyhoeddus.

**Cynaliadwyedd   Darpariaeth Toiledau tua'r Dyfodol**

Yn seiliedig ar y siartiau a'r data, gwnaethpwyd y sylwadau canlynol:-

- Ni ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu toiledau i'r Cynghorau Cymuned;
- Roedd cefnogaeth i godi tâl am ddefnyddio'r Cyfleusterau Cyhoeddus;
- Annog Partneriaeth rhwng y Cyngor a Chynghorau Cymuned;
- Peidio â chau Cyfleusterau Cyhoeddus yn ystod y Gaeaf;
- Cau'r Cyfleusterau Cyhoeddus sy'n cael eu defnyddio lleiaf;
- Nid oedd pobl eisiau Cyfleusterau Cyhoeddus i'r ddau ryw/niwtral o ran y rhywiau;
- Annog defnyddio'r Cynllun Toiledau Cymunedol.

- **Arwyddion**


Mae'r data'n nodi bod angen mynd i'r afael â'r ddarpariaeth bresennol o ran yr arwyddion sy'n nodi lleoliad Cyfleusterau Cyhoeddu ac nad yw'n ddigonol ar hyn o bryd.

Nodir y gofynion canlynol:-

- Mae angen gwell arwyddion ar y strydoedd;
- Yr opsiwn a ffefrir yw llyfrynnau o fewn Canolfannau Croeso;
- Mae angen diweddaru gwybodaeth llywio â lloeren (SatNav) i gynnwys lleoliad Toiledau Cyhoeddus.

Cyfeiriadau Strategol Allweddol

**Arfarniad o'r opsiynau a gynigir ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn y dyfodol.**




**Ffigwr 1.2 Arfarniad o'r ddarpariaeth doiledau gyfredol ar ffurf strategaeth allweddol**,

## CAMAU GWEITHREDU

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad o anghenion a'r adborth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus (gan gynnwys yr holiadur cyhoeddus), mae yna nifer o gamau gweithredu i'w cymryd er mwyn parhau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyflwyno toiledau cyhoeddus yng Ngheredigion.

Bydd cyfres o osodiadau, sy'n amlinellu'r camau y mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu eu cymryd er mwyn diwallu'r angen hwn, yn cael eu trafod mewn mwy o fanylder yn y tudalennau dilynol.

Bydd darparu cyfleusterau ychwanegol bob amser yn ddibynnol ar gyfiawnhad strategol cryf ac a oes cyllid ar gael.

Yn ychwanegol at hyn, bydd y strategaeth hon yn nodi opsiynau am y mathau o doiledau cyhoeddus sy'n addas ar gyfer rhai ardaloedd.

### Rhestr o gamau gweithredu

Amlinellir y rhain fel a ganlyn:

1. Mabwysiadu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion (2019) – Mae hwn yn rheidrwydd gan fod Rhan 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau yng Nghymru baratoi a chyhoeddi strategaethau toiledau lleol.

2. Cyfeirio at Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Cyngor Sir Ceredigion (2019) mewn Strategaethau a Pholisïau'r Cyngor yn y dyfodol.- Bydd y strategaeth hon yn unol â'r gofynion fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


3. Cynllunio mesurau cyllidebol yn unol â'r strategaeth hon a chyflwyno cyllid refeniw drwy broses gyllidebol.-Wrth baratoi cynigion ariannu cyllidebol o flaen llaw, gellir nodi adnoddau ar gyfer gwelliannau a chynnal yn y dyfodol, gellir nodi unrhyw wendidau a

4. Pharatoi a chyhoeddi Datganiad Cynnydd Interim o fewn dwy flynedd o gyhoeddi'r strategaeth hon neu ddwy flynedd yn dilyn dyddiad adolygiad ôl-etholiad diwethaf y strategaeth hon.- Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd yng Ngheredigion pa gamau gweithredu sydd wedi eu cymryd, bydd yn monitro cynnydd ac yn adolygu nod ac amcanion y Strategaeth ac yn cymryd cam angenrheidiol tuag at gyflawni'r Strategaeth.

5. Adolygu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus a chynhyrchu datganiad cynnydd diwedd cyfnod.- Bydd yr adroddiad diwedd cyfnod hwn yn adolygu pa mor dda y cyflwynwyd y Strategaeth, pa nodau ac amcanion a gyflawnwyd a pha ddarpariaethau y mae eu hangen er mwyn cynnal darpariaeth y gwasanaeth.

6. Ail-fuddsoddi incwm a gynhyrchwyd drwy godi tâl ar ddefnyddio cyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor, er mwyn diogelu a gwella darpariaeth gyfredol.


## Yr amcanion allweddol y mae angen eu mabwysiadu er mwyn sicrhau bod y nod cyffredinol yn cael ei gyflawni.




Mewn cysylltiad â'r amcanion a nodwyd, isod ceir disgrifiad manylach o'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cyflawni a chyflwyno'r amcanion hyn:

# Cynllun cyflawni pum mlynedd

Mae’r canlynol wedi eu nodi fel camau gweithredu allweddol ac wedi eu blaenoriaethu ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac wedi eu cyflwyno ar ffurf tabl.




| **Amcan 1** | **Hysbysebu cyfleusterau sy’n bodoli eisoes drwy arwyddion da ac arwyddion sy’n cynnig gwybodaeth** |
|---|---|
| **<u>Blwyddyn</u>** | **Camau gweithredu i gyflawni amcan 1:-** |
| **Blwyddyn 1** | Gwneud arolwg o holl arwyddbyst toiledau cyhoeddus, er mwyn nodi meysydd lle mae angen gwelliant |
| **Blwyddyn 2** | O fewn y gyllideb, gwella arwyddion yn holl Drefi a Phentrefi Ceredigion |
| **Blwyddyn 3** | Adolygu a gwella’r dudalen ar y wefan.<br><br>Cadw Gwe-dudalen y Cyngor yn gyfredol, gan sicrhau bod gan breswylwyr ac ymwelwyr fynediad at wybodaeth fanwl gywir. |
| **Blwyddyn 4** | Edrych ar ddatblygiadau technolegol am ffyrdd newydd o ran pryd a sut i gyfleu gwybodaeth. |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1-4. |

| | |
|---|---|
| **Amcan 2** | **Sicrhau cymaint â phosibl o gyfleusterau, drwy gyfrwng y Cyngor, partneriaethau a darpariaeth fasnachol** |
| **<u>Blwyddyn</u>** | **Camau gweithredu i gyflawni amcan 2:-** |
| **Blwyddyn 1** | Archwilio cyfleoedd i ddatblygu perthynas gyda busnesau lleol a mentrau preifat er mwyn cynyddu lefel darpariaeth y gwasanaeth. |
| **Blwyddyn 2** | Nodi'r sgôp a'r flaenoriaeth ar gyfer cytundebau les Cyngor Plwyf/Tref i'r dyfodol a thrafodaethau ynghylch cynnydd.<br><br>Gweithio gyda Gwasanaethau Eiddo er mwyn asesu oblygiadau newidiadau priodol i gytundebau les yn y dyfodol.<br><br>Gweithio gydag Amddiffyn y Cyhoedd er mwyn nodi cyfleoedd i gynyddu argaeledd drwy ymagweddau cyfreithiol perthnasol. |
| **Blwyddyn 3** | Nodi a gweithio gyda chymunedau lleol er mwyn hwyluso cynlluniau toiledau cymunedol.<br><br>Cysylltu gyda Chynghorau Plwyf a Thref, busnesau a rhanddeiliaid cymunedol eraill ynghylch eu hanghenion. |
| **Blwyddyn 4** | Parhau i nodi a gweithio gyda chymunedau lleol i hwyluso Cynlluniau Toiledau cymunedol. |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1-4. |

| Amcan 3 | **Sefydlu Fframwaith ar gyfer anghenion y dyfodol a ddarparwyd gan y sector masnachol drwy gysylltiadau strategaeth y Cyngor a sianeli cynllunio** |
|---|---|
| **<u>Blwyddyn</u>** | **Camau gweithredu i gyflwyno amcan 3:-** |
| **Blwyddyn 1** | Nodi rhanddeiliaid allweddol e.e. bwrdd gwasanaeth cyhoeddus a chyrff sector cyhoeddus eraill ac ymgysylltu yn y Fframwaith Datblygu Lleol a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol er mwyn dylanwadu ar y ddarpariaeth o ran toiledau |
| **Blwyddyn 2** | Cyflogi rhanddeiliaid gydag arbenigeddau, gwybodaeth a chefndiroedd o fathau gwahanol, gan gynnwys sut i ddeall anghenion y boblogaeth ehangach a'r rhai hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan grwpiau buddiant penodol. |
| **Blwyddyn 3** | Cynnal y proffil a'r angen am gyfleusterau toiled sydd yn hygyrch i'r cyhoedd e.e. proses ymgynghori fewnol wrth drafod cynigion ar gyfer datblygiadau mawr (Amodau Cynllunio) |
| **Blwyddyn 4** | Annog ac ymchwilio i gyfleoedd nawdd gan fusnesau lleol |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1-4. |

| Amcan 4 | **Darpariaeth gynaliadwy o fewn y cyllid sydd ar gael** |
|---|---|
| **<u>Blwyddyn</u>** | **Camau gweithredu er mwyn cyflawni amcan 4:-** |
| **Blwyddyn 1** | Cynllunio mesurau cyllidebol a'u hadolygu'n flynyddol.<br><br>Gweithio gyda Gwasanaethau Eiddo er mwyn datblygu rhaglen mesurau arbed dŵr ac ynni. |
| **Blwyddyn 2** | Cynllunio mesurau cyllidebol ac adolygu'n flynyddol.<br><br>Ail-fuddsoddi incwm a gynhyrchwyd er mwyn diogelu a gwella darpariaeth bresennol y Cyngor. |
| **Blwyddyn 3** | Adolygu rhaglen gau'r gaeaf ac asesu a fyddai codi tâl yn cyfrannu at liniaru cyfyngiadau cyllidebol. |
| **Blwyddyn 4** | Cyllunio mesurau cyllidebol a'u hadolygu'n flynyddol. |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1 – 4. |


| | |
|---|---|
| **Amcan 5** | **Cynhwysiant a Hygyrchedd** |
| **<u>Blwyddyn</u>** | **Camau gweithredu er mwyn cyflwyno amcan 5:-** |
| **Blwyddyn 1** | Nodi lleoliadau ar gyfer toiledau hollgynhwysol fel y ddarpariaeth yn Rhodfa'r Parc, Aberystwyth. |
| **Blwyddyn 2** | Nodi lleoliadau newydd ar gyfer cyfleusterau ar gyfer newid babanod a chyfleusterau lleoedd newid. |
| **Blwyddyn 3** | Coladu gwybodaeth, blaenoriaethu a pharatoi cynllun cyflwyno. |
| **Blwyddyn 4** | Diweddaru toiledau o fewn y gyllideb, gan ddefnyddio cyllid a gynhyrchwyd lle bo hynny'n bosibl. |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1-4. |

| | |
|---|---|
| **Amcan 6** | **Cynnal a Chadw / Cost Rhedeg ac Adfer Cost** |
| **<u>Blwyddyn</u>** | **Camau gweithredu i gyflwyno amcan 6:-** |
| **Blwyddyn 1** | Adolygu'r ffioedd mynediad sydd ar hyn o bryd a chyflwyno costau mynediad mewn toiledau cyhoeddus allweddol er mwyn cynnal a chefnogi'r glanhau, wedi ei seilio ar feincnodi gyda chynghorau eraill a barn y cyhoedd. |
| **Blwyddyn 2** | Adolygu ffioedd mynediad sydd ar hyn o bryd a chyflwyno costau mynediad mewn toiledau cyhoeddus allweddol er mwyn cynnal y glanhau, wedi ei seilio ar feincnodi gyda chynghorau eraill a barn y cyhoedd. |
| **Blwyddyn 3** | Nodi lleoliadau sy'n cael eu cynnal yn wael a pharatoi rhaglenni cynnal a chadw cynlluniedig. |
| **Blwyddyn 4** | Nodi lleoliadau ar gyfer paneli solar, ffotofoltaig ac ymchwilio ymhellach i opsiynau Buddsoddi i Arbed. |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1-4. |

| Amcan 7 | Budd I'r Gymuned |
|---|---|
| **Blwyddyn** | **Camau gweithredu i gyflwyno amcan 7:-** |
| **Blwyddyn 1** | Trafod â'r Cynghorau Cymuned pa doiledau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, y rhai y mae angen eu diweddaru neu sydd ar gau yn y Gaeaf er mwyn nodi rhai datrysiadau posibl. |
| **Blwyddyn 2** | Archwilio cyfleoedd er mwyn diwallu gofynion a darpariaeth yn ystod y nos. |
| **Blwyddyn 3** | Adolygu'r rhaglen gau dros y gaeaf ac asesu a fyddai codi tâl o gymorth gyda chyfyngiadau cyllidebol. |
| **Blwyddyn 4** | Adolygu cyfleusterau cawodydd sy'n bodoli eisoes o fewn y cyfleusterau cyhoeddus presennol ac archwilio'r posbilirwydd o ddefnyddio mecanwaith adfer cost. |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1-4. |

| Amcan 8 | Hyrwyddwyr/trefnwyr digwyddiadau unwaith ac am byth yn darparu cyfleusterau toiled priodol (Pecyn cymorth digwyddiadau neu gyfatebol) |
|---|---|
| **Blwyddyn** | **Camau gweithredu i gyflawni amcan 8:-** |
| **Blwyddyn 1** | Penderfynu ar a gweithredu ffi i gael trwydded i gynnal y fath ddigwyddiadau, gan gynnwys y rheidrwydd i ddarparu toiledau a fyddai'n cynnwys Lleoedd Newid Symudol lle bo hynny'n briodol. |
| **Blwyddyn 2** | Cyfrannu at Becyn Cymorth Digwyddiadau, gan gynnwys cyfeiriadau at ffynonellau cyngor ac arweiniad eraill ac at ddarparwyr toiledau dros dro yn unol â chyfarwyddyd ar gyfer diogelwch mewn digwyddiadau a gynhyrchir gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – y Llyfr Piws. |
| **Blwyddyn 3** | Darparu cyfleusterau toiled dros dro neu ddefnyddio cyfleusterau sy'n bodoli'n barod yn neu yn agos at leoliad y digwyddiad, mewn cytundeb gyda'r Cyngor. |
| **Blwyddyn 4** | Archwilio'r posibilrwydd o ddarparu toiledau dros dro mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn uniongyrchol gan y Cyngor. |
| **Blwyddyn 5** | Adolygu a gwerthuso Blynyddoedd 1-4. |

**Mae angen monitro'r 8 amcan a nodwyd yn rheolaidd er mwyn cynnal Strategaeth Doiledau effeithiol ac effeithlon yng Ngheredgion.**



# CRYNODEB

Bydd mabwysiadu a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Cyhoeddus Ceredigion yn gosod sail ar gyfer cynnig darpariaeth addas o ran cyfleusterau toiled, naill ai gan gyrff cyhoeddus a/neu mewn cydweithrediad â'r sector preifat.

Mae'r gallu i gael mynediad at doiledau glân sydd wedi eu cynnal yn dda a thoiledau diogel yn ystyriaeth bwysig pan fo trigolion, ymwelwyr a phobl o'r fath yn ymweld â Cheredigion, gydag arwyddion digonol, mapio lleol a gwybodaeth yn cael eu darparu er mwyn i'r cyfleusterau yma gael eu defnyddio.  Mae'r cam cadarnhaol hwn yn rhoi argraff ffafriol a fydd yn annog pobl i ddychwelyd i'r ardal i fasnachu a bydd yn cynnal twf economaidd cynaliadwy'r ardal.

Gyda thoriadau posibl i gyllidebau Awdurdodau Lleol yn y dyfodol, a fydd yn effeithio ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus, mae'r opsiynau a nodwyd yn yr Adroddiad yn tanlinellu'r angen a'r rheidrwydd i ddarparu a chynnal cyfleusterau toiled, naill ai'n uniongyrchol gan Gyngor Sir Ceredigion drwy gyfrwng cynigion ar gyfer cynhyrchu incwm; drwy ymgysylltu gyda chyrff Cyhoeddus eraill; busnesau Sector Preifat, yn hybu Cynllun Toiledau Cymunedol ac ymgynghori gyda Chynghorau Cymuned.

Nod ac amcan Cyngor Sir Ceredigion yw annog darparu cyfleusterau toiled glân, diogel, hygyrch a chynaliadwy ar gyfer y presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

# ATODIAD 1 – Rhestr o Doiledau Cyhoeddus y Cyngor ym mis Ionawr 2019

| **Aberaeron** | **Cyfleusterau** | **Amser** |
|---|---|---|
| Traeth y De / South Beach* SA46 0BE | | ***Tymhorol Ebr-Hyd** |
| Heol y Crefftwyr / Masons Road SA46 0DA | Anabl 24/7 | |
| Traeth y Gogledd / North Beach SA46 0JF | Anabl | *** Tymhorol Ebr-Hyd** |
| Pen Cei / North Pier* SA46 0DA | Anabl 24/7 | |
| Swyddfeydd Penmorfa / Offices SA46 0PA | Newid Babanod ac Anabl | Llun – Iau 09.00 – 17.00 Gwener 09.00-16.30 |
| **Aberporth** | | |
| Glanmardy* SA43 2EX | Anabl | *** Tymhorol Ebr-Hyd** |
| Penrodyn SA43 2DA | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | |
| **Aberteifi/Cardigan** | | |
| Maes Parcio Heol y Baddondy / Bath House Car Park SA43 1JY | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | Ar agor 24 awr |
| Maes Parcio Mwldan Isaf / Lower Mwldan Car Park SA43 1HU | | |
| Maes Parcio Maesglas / Greenfield Car Park SA43 1JL | Anabl 24/7 | |
| Swyddfa'r Cyngor Stryd Morgan / Morgan Street Council Offices | Anabl 24/7 | Llun – Gwen. 09.00 – 16.30 Ar gau amser cinio 13.00 – 13.45 |
| Gerddi Victoria - Victoria Gardens SA43 1LT | Anabl 24/7 | |
| **Aberystwyth** | | |
| Lloches, Glan-y-Môr / Shelter, Marine Terrace* SY23 2HF | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | *Wedi eu cloi gyda'r nos. Wedi eu datgloi erbyn 8am |
| Promenâd y De, Yr Harbwr / South Prom, The Harbour* SY23 1JY | Newid Babanod ac Anabl | |
| Tir y Castell / Castle Grounds* SY23 1DZ | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | |
| Coedlan y Parc / Park Avenue SY23 1PG | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | |
| Canolfan Rheidol SY23 3UE | Newid Babanod ac Anabl | Llun – Iau 09.00 – 17.00 Gwener 09.00-16.30 |
| **Borth** | | |
| Wrth ymyl Gwyliwr y Glannau/RNLI Traeth y De / Adjacent to Coast guard/RNLI, South Beach SY24 5LT | Newid Babanod ac Anabl | Ar agor 24 awr* *Ar agor yn y gaeaf gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned y Borth |
| Pantyfedwen, Traeth y Gogledd – Stryd Fawr Panyfedwen, North Beach, High Street SY24 5HP | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | |
| **Cei Bach*** | | ***Tymhorol Ebrill - Hydref Ar agor 24** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **awr** |

| **Cei Newydd/New Quay** | **Cyfleusterau** | **Amser** |
|---|---|---|
| Maes Parcio Paragon / Paragon Car Park* SA45 5NY | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | ***Tymhorol Ebrill-Hydref** |
| Gerddi Ranmore / Ranmore Gardens* SA45 9PE | | |
| Stryd Ioan/South John Street SA45 9NW | Anabl 24/7 | Ar agor 24 awr |
| Ar y traeth (Stribyn Tywodlyd ar y Traeth) – Sandy Slip On the Beach* SA45 9PS | Anabl 24/7 | ***Tymhorol Ebrill – Hydref Ar agor 24 awr** |
| **Cenarth* SA38 9JP** | Anabl 24/7 | *Tymhorol Ebrill-Hydref Ar agor 24 awr |
| **Cymtydu*SA46 6LH** | | ***Tymhorol Ebrill-Hydref Ar agor 24 awr** |
| **Pontarfynach/Devils Bridge* SY23 3JL** | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | ***Tymhorol Ebrill-Hydref** |
| **Llanbedr PS/Lampeter** | | |
| Maes Parcio'r Rookery / Rookery Lane –Car Park SA48 7BJ | Anabl 24/7 | Ar agor 24 awr |
| Heol Sant Tomos/St Thomas Street SA48 7DG | | |
| Stryd y Farchnad / Market Street SA48 7DS | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | |
| **Llanddewi Brefi SY25 6RF** | | Ar agor 24 awr |
| **Llandysul** | | |
| Maes Parcio - Car Park SA44 4QL | Anabl 24/7 | Ar agor 24 awr |
| **Llangeitho SY25 6SU** | | Ar agor 24 awr |
| **Llangrannog** | | |
| Ger y Traeth / Near Beach SA46 6SN | Newid Babanod ac Anabl | Ar agor 24 awr |
| **Llanon SY23 5LA** | | Ar agor 24 awr |
| **Tal-y-bont SY24 5ER** | | Ar agor 24 awr |
| **Tresaith SA43 2JL** | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | ***Tymhorol Ebrill-Hydref<br>** ar agor drwy'r gaeaf gyda chefnogaeth Cyngor Cymuned Tresaith** |
| **Tregaron** | Newid Babanod ac Anabl 24/7 | Ar glo dros nos Wedi eu datgloi erbyn 8am |

## ATODIAD 2 – Map o'r ddarpariaeth bresennol a'r pellter rhyngddynt o fewn lleoedd allweddol yng Ngheredigion

# ATODIAD 3 – Copi o'r Holiadur ar gyfer yr Arolwg

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod toiledau cyhoeddus glân ac sy'n cael eu cynnal a chadw'n dda, ac sydd yn hygyrch, diogel ac wedi'u lleoli'n strategol yn wasanaeth pwysig i'r cyhoedd yn gyffredinol. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n datblygu strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer darparu ac ailddatblygu ein toiledau cyhoeddus ac rydym yn gofyn am eich barn nawr i'n helpu ni i wneud penderfyniadau ynghylch gweithredu a darparu toiledau cyhoeddus yn y dyfodol ar draws y sir.

1. Dywedwch wrthym eich côd post cartref

2. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw doiledau cyhoeddus yn ardal Ceredigion yn ystod y 12 mis diwethaf? *Ticiwch un opsiwn yn unig*
   Ydw ○
   Nac Ydw ○

3. Ydych chi'n ystyried hygyrchedd ac argaeledd toiledau cyhoeddus wrth ymweld â threfi/pentrefi Ceredigion? *Ticiwch un opsiwn yn unig*
   Ydw ○
   Nac Ydw ○
   *Nodwch unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ynghylch eich ateb*

4. O fewn canol ein trefi, pa mor hir y byddech chi'n ei ystyried yn dderbyniol i orfod cerdded i doiled cyhoeddus?
   *Ticiwch un opsiwn yn unig*
   Llai na 5 munud ○
   Mwy na 5 munud ○

5. Faint o amser fyddech chi'n ei ystyried yn dderbyniol i yrru i doiled cyhoeddus?
   *Ticiwch un opsiwn yn unig*
   Llai na 15 munud ○
   Llai na 30 munud ○

6. Yn eich barn chi, ble ydych chi'n meddwl y mae angen toiledau cyhoeddus fwyaf?
   *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

| | *Cytuno* | *Anghytuno* |
|---|---|---|
| a) Yn agos at ardaloedd siopa mawr | ○ | ○ |
| b) Ger atyniadau twristiaid | ○ | ○ |

c) Nesaf i feysydd chwarae plant ○ ○
d) Ar draethau poblogaidd ○ ○
e) Mewn gorsafoedd drenau a bysiau ○ ○
f) Ar hyd llwybr yr arfordir ○ ○

*Nodwch isod*

7. Ydych chi'n cefnogi darparu toiledau cyhoeddus yn barhaus o fewn eich tref/pentref?
   *Ticiwch un opsiwn yn unig*
   Ydw ○
   Nac Ydw ○
   Ddim yn gwybod ○

8. A fyddech chi'n talu i ddefnyddio toiledau cyhoeddus? *Ticiwch un opsiwn yn unig*
   Byddwn ○
   Na fyddwn ○

9. Os 'Byddwn', faint fyddech chi'n barod i dalu?
   a) £1 ○
   b) 50p○
   c) 20p○
   d) Arall *Nodwch y swm*

10. Mae Ceredigion yn cynnal partneriaeth â darparwyr gwasanaethau lleol i gynnig eu cyfleusterau toiledau am ddim i'r cyhoedd, p'un a ydynt yn gwsmer ai peidio. Ydych chi'n ymwybodol o Gynllun Toiledau Cymunedol Cyngor Ceredigion?
    *Ticiwch un opsiwn yn unig*
    Ydw ○
    Nac Ydw ○

11. Ydych chi'n meddwl y dylem fod yn ymestyn y Cynllun Toiledau Cymunedol yn ehangach i fusnesau? *Ticiwch un opsiwn yn unig*
    Ydw ○
    Nac ydw ○
    Ddim yn gwybod ○
    Nodwch isod

12. Pe bai'r Cynllun yn cael ei ehangu i gynnwys mwy o fusnesau yn yr ardal, fel toiledau cyhoeddus eraill/ychwanegol, a fyddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn eu defnyddio?
    *Ticiwch un opsiwn yn unig*
    Byddwn ○

Na fyddwn ○
Ddim yn gwybod ○

*Os mai'r ateb yw 'Na' neu 'Ddim yn gwybod', eglurwch pam*

| |
|---|
| |

13. A fyddech chi'n cefnogi cau toiledau cyhoeddus sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor gan y cyngor o blaid darpariaeth wahanol, fel y Cynllun Toiledau Cymunedol?

*Ticiwch un opsiwn yn unig*

Byddwn ○
Na fyddwn ○
Ddim yn gwybod ○

*Eglurwch y rhesymau dros eich dewis chi*

| |
|---|
| |

14. Yn eich barn chi, sut ddylai'r Cyngor sicrhau bod y ddarpariaeth o ran toiledau cyhoeddus yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol? Dylai'r Cyngor ystyried…

| *Nodwch isod* | *Cytuno* | *Anghytuno* |
|---|---|---|
| a) Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am doiledau i'r Cynghorau Cymuned | ○ | ○ |
| b) Codi ffi am ddefnyddio toiledau | ○ | ○ |
| c) Eu rheoli mewn partneriaeth â Chynghorau Cymuned | ○ | ○ |
| d) Eu rheoli mewn partneriaeth â chyrff sector cyhoeddus eraill | ○ | ○ |
| e) Cau toiledau yn ystod y gaeaf | ○ | ○ |
| f) Cau toiledau sy'n cael eu defnyddio leiaf | ○ | ○ |
| g) Darparu toiledau niwtral o ran rhywedd yn unig | ○ | ○ |
| h) Mwy o ddefnydd o'r Cynllun Toiledau Cymunedol | ○ | ○ |

i) Arall – *Nodwch isod*

| |
|---|
| |

15. Sut allwn ni helpu pobl i ddod o hyd i'r toiledau cyhoeddus? *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

a) Darparu mapiau ○
b) Gwell arwyddion ar y stryd ○
c) Gwefan Cyngor Sir Ceredigion ○
d) Gwefannau eraill, fel Dewis ○

e) Llyfrynnau gwybodaeth i dwristiaid ○
f) Dyfeisiau llywio, fel Satnav ○

*Rhowch sylwadau isod*

16. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o doiled: (*ticiwch am ie)*

a) Hygyrch ○
b) Newid baban ○
c) Lleoedd newid ○
d) Niwtral o ran rhywedd ○

17. Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill?

18. Ychydig o fanylion amdanoch chi …. Beth yw eich grŵp oedran? *Ticiwch un opsiwn yn unig*

a) 0-14 oed ○
b) 15-24 oed ○
c) 25-44 oed ○
d) 45-64 oed ○
e) 65+ oed ○

19. …. A'ch rhyw?

a) Benyw ○
b) Gwryw ○
c) Mae'n well gennyf beidio â dweud ○
d) Arall ○

20. Oes gennych chi broblem iechyd neu anabledd hirdymor? *Ticiwch un opsiwn yn unig*

a) Oes ○
b) Nac oes ○
c) Mae'n well gennyf beidio â dweud ○

21. Ydych chi'n ofalwr (neu'n aelod o'r teulu) person ag anabledd?

*Ticiwch un opsiwn yn unig*

a) Ydw ○
b) Nac Ydw ○

Diolch am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth.

# ATODIAD 4 – Sut i gael gafael ar y Ddogfen a Manylion Cyswllt

Gellir cael gafael yn y strategaeth hon ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yng Ngheredigion drwy ddilyn y ddolen isod:-

https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans- policies/

Ceir fersiwn Saesneg a Chymraeg ar yr un dudalen ar y we.

Os oes angen copi caled o'r ddogfen hon arnoch neu gopi mewn fformat gwahanol e.e. print bras, fersiwn clywedol, fformat Word ar gyfer y sawl sy'n darllen oddi ar y sgrin ayb., cysylltwch â'r ddesg gymorth Eiddo 01970 633900

Gallwch gysylltu â ni yn y dulliau canlynol:

Ein cyswllt ar-lein neu

**Drwy'r Post:**

Uned Perfformiad Corfforaethol
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Dros y Ffôn:**

01545 570881

Cyhoeddwyd y ddogfen hon gan ???, Mai 2019